Safon Uwch Iaith Saesneg (Amser Llawn)

Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar ddeall hanfodion iaith ar lefelau amrywiol. Gosodir iaith yn ei chyd-destunau cymdeithasol a byd-eang ehangach a bydd myfyrwyr yn bwrw golwg ar ystod eang o destunau o fywgraffiadau, gwaith ffuglen a ffeithiol, gweithiau ysgrifenedig ar gyfer plant a sgriptiau teledu.

Gwneud cais am Safon Uwch? Cliciwch 'Gwneud Cais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddiddordeb ynddynt, llenwch y ffurflen gais ar-lein ac wedyn cadwch le ar gyfer Noson Wybodaeth i gyfarfod â'r tiwtoriaid a thrafod y pynciau o'ch dewis. Bydd modd i chi wedyn ddewis eich pynciau ar y noson!

Cod UCAS: ELLC03ELNS

Gofynion Mynediad

Chwech TGAU â Gradd C neu uwch gan gynnwys Iaith Saesneg â Gradd B a Llenyddiaeth Saesneg â Gradd C.

Rhagolygon Gyrfa

Cyrsiau prifysgol: Llenyddiaeth/Iaith Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Newyddiaduraeth, Y Cyfryngau, Y Gyfraith, Cymdeithaseg. Hefyd, mae Safon Uwch Iaith Saesneg yn bwnc sy'n cyd-fynd yn wych â phynciau Safon Uwch mwy penodol megis y gwyddorau a'r celfyddydau.
Datblygiad Gyrfa: Newyddiaduraeth, athro neu athrawes/darlithydd, cyfieithydd ar y pryd, a gwleidyddiaeth.

Modiwlau'r cwrs

UG
Uned 1 Archwilio Iaith: Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ymgysylltu â'r defnydd o iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'n rhoi iddynt y cyfle i gymhwyso'u sgiliau beirniadol a'u gwybodaeth am iaith. Uned 2 Materion Iaith ac Ysgrifennu Gwreiddiol a Beirniadol: Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ymgysylltu â materion iaith ac i ddefnyddio iaith yn greadigol.

U2
Uned 3 Iaith dros Amser: Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ymgysylltu ag iaith ar hyd amser. Mae'n rhoi'r cyfle

iddynt gymhwyso'u sgiliau dadansoddi a'u gwybodaeth am newid mewn iaith.
Uned 4 Iaith Lafar ac Ail-gastio Creadigol: Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ymgysylltu ag iaith lafar a chynhyrchu darn gwreiddiol o waith ysgrifenedig. Mae wedi'i bwriadu i roi cyfleoedd iddynt gymhwyso'u sgiliau dadansoddi a chyfathrebu'n greadigol mewn gwahanol ffyrdd.
Uned 5 Iaith a Hunaniaeth: Asesiad di-arholiad: 2500-3500 gair Mae'r uned hon yn rhoi cyfleoedd ar gyfer ymchwil iaith sydd â pherthnasedd personol. Mae wedi'i bwriadu i ennyn ymgysylltiad dysgwyr â thema iaith a hunaniaeth.

Asesiad

Mae 5 uned dros ddwy flynedd, y mae pedair ohonynt yn cael eu hasesu trwy arholiad ac un ag asesiad ysgrifenedig. Mae Uned 2 ac Uned 4 yn cynnwys ffocws cryf ar ysgrifennu creadigol.

Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r cwrs hwn

DULL ASTUDIO
FT

LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS
2 years